

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Y Bala

5/1/2023

Presennol: Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Moira Mai, Sion McGuinness, Tony Parry, Eric Williams, John C Williams

Lis Puw (Clerc).

Ymddiheuriadau: Dilys Evans, Fiona Hopkins

1. **Croesawyd** y Cyngorwyr gan y Maer a ddymunodd flwyddyn newydd dda i bawb. Cydymdeimlwyd gyda Mrs Eurwen Jones yn ei phrofedigaethau diweddar; roedd tad Emyr, y diweddar Mr Trebor Jones, Traian, yn Glerc i'r Cyngor Tref am nifer maith o flynyddoedd.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 8/12/22. Cytunwyd i wahodd cynrychiolydd o Plains Rally i roi cyflwyniad i'r Cyngor.
4. **Materion y Clerc:**
 - i. 4.i Arwydd Y Bala – anfonwyd eto at Gyngor Gwynedd a NMWTRA ond ni chafwyd ateb hyd yn hyn.
 - ii. 4.iii 20mya wrth Ysgol Godre'r Berwyn – ymatebodd Cyngor Gwynedd y bydd hyn yn ei le erbyn Medi 2023. Roedd siom na fyddai'n digwydd yn gynt.
 - iii. 5. Adeiladau gweigion – ymatebodd Cyngor Gwynedd y bydd trafodaeth mewnol i ystyried y ffordd ymlaen parthed dyfodol Neuadd Buddug. Mae safle cyn Ysgol Bro Tegid dan ystyriaeth ar gyfer datblygiad tai a fydda'n cyfrannu tuag at yr angen yn lleol. Mae peth gwaith eisoes wedi ei wneud er mwyn adnabod potensial y safle, ac mae Cyngor Gwynedd yn wynebu heriau o ran mapio llifogydd. Bydd Cyngor Gwynedd yn ymgynghori gyda Cyngor Tref Y Bala wrth i'r cynllun ddatblygu.
 - iv. 6. Ardal Ni – cyfarfu'r Clerc gyda Steffan Roberts i fynegi blaenoriaethau'r Cyngorau lleol yng nghynllun Ardal Ni, yn cynnwys Bala Gyfeillgar, gwella llwybrau o fewn a thu hwnt i'r dref a Byrddau Gwybodaeth. Mae datblygu Hwb Llesol hefyd yn fwriad gan Bartneriaeth Penllyn.

- v. 7. Biniau baw ci – mae Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn bositif i'r cais am fwy o finiau ac yn dymuno derbyn gwybodaeth am leoliadau cyfleus i'r lori casglu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd mewn trafodaethau am y posibiladau. Bydd Andrew Basford yn trefnu cyfarfod gyda grŵp o Gynghorwyr maes o law – 11/1/23 i'w gadarnhau. Yn sicr mae angen mwy o ddarpariaeth wrth yr orsaf dân ac ar flaen y llwybr newydd wrth yr ystâd ddiwydiannol. Tynnwyd sylw nad oes bin baw ci yn ymyl maes parcio'r Grîn ac fod gwir angen un yno.
- Nododd y Maer ei fod wedi derbyn diolch fod y Cyngor wedi gosod pwynt trydan i geir yn y Grîn.

5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd Adroddiad.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Anfonwyd gwybodaeth misol at y Cynghorwyr trwy e-bost. Bydd angen edrych yn fanwl pan ddaw'r cynllun rheilffordd nesaf i sicrhau nad ydyw'r olygfa o'r Aran yn cael ei guddio gan ffens.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau.

- i. Nadolig: llwyddwyd i addurno'r dref gyda chymorth Cyngor Gwynedd a'r busnesau lleol. Siop Ria enillodd y wobr am y ffenest orau.
- ii. Gwarchod y Cyhoedd mewn argyfwng: nid oes cynllun yn bodoli ar hyn o bryd i ad-leoli'r trigolion mewn argyfwng. Mae Clare Mackintosh yn cynnal trafodaethau ar y mater gyda Swyddog Gwarchod y Cyhoedd. (*Noder: Cynnig cyngor a gwybodaeth leol yw rôl Cyngor Tref Y Bala; asiantaethau eraill sydd yn gyfrifol am greu a gweithredu Cynllun Argyfwng*).
- iii. Asedau: mae NMWTRA wedi cytuno i symud y fainc o flaen Siop Ria gan ei gwneud yn haws i'r anabl groesi'r ffordd. Mae Tony Parry a'r Clerc wedi rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru mai'r Cyngor ydyw perchnogion y ddwy fainc oedd ar lan y llyn. Nodwyd ei bod yn anodd cyrraedd at y toiledau anabl wrth y llyn pan fo'r dwr yn uchel gan fod biniau ail-gylchu yno a dywedodd y Clerc y byddai'n cysylltu gyda'r Warden.
- iv. Gwella adnoddau i drigolion: anogwyd yr is-bwyllgor i gyfarfod i gynllunio dros y tymor hir.
- v. Bioamrywiaeth: mae'r is-bwyllgor yn y broses o gasglu gwybodaeth.
- vi. Cyllid: Derbyniwyd Cofnodion manwl. Eglurwyd y Gyllideb a nodwyd nad oes cyllid o'r tu allan wedi dod i law ar hyn o bryd ar gyfer glanhau llochesi bws. Derbyniwyd gwybodaeth hwyr y bydd yr ardoll eleni rhywfaint dros £3,000 ac y bydd yn cael ei dalu yn y flwyddyn ariannol newydd.
- Cytunodd y Cyngor i osod Praesept o £27,000 ar gyfer 2023-24 (£33.52 am y flwyddyn ar gyfer annedd Band D). Mae hyn yr un swm a'r blynyddoedd diweddar. Mae'r is-bwyllgor yn ymwybodol y bydd angen defnyddio rhywfaint o'r cynilion, ond roeddent hefyd yn ymwybodol o'r sefyllfa costau byw ar hyn o bryd, a'r angen i beidio ychwanegu at faich ariannol trethdalwyr Y Bala.

8. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Bydd Cytundebau Cynnal Y Domen a glanhau llochesi ar Agenda mis Mawrth.
- ii. Ystyriwyd anfonebau'r mis a chytunwyd i'w talu, yn cynnwys HMRC - £432.82.
- iii. Ceisiadau cymunedol am arian: rhannwyd arweiniad i Gyngorwyr roi i ymgeiswyr, gan dynnu sylw arbennig at yr angen i gynnwys adroddiad ariannol. Bydd y cyfraniadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

9. Materion Cynllunio:

Cyngor Gwynedd : Rhif Cais C22/1090/06/TC Lleoliad: Dwr Cymru, Y Bala, LL23 7NJ
Bwriad : Tystysgrif Cyfreithloni Defnydd am ddatblygiad arfaethedig i osod offer a peiriannau – cymeradwywyd y cais.

10. Gohebiaeth: Parc Cenedlaethol Eryri : Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg: bydd y Clerc yn ymateb yn dilyn is-bwyllgor Cyngor Cymuned Llanuwchllyn i astudio'r mater.

11. Partneriaeth Penllyn: nid oedd adroddiad y mis hwn.

12. Materion lleol y Cyngorwyr Tref

- i. Croeso Cynnes: trafodwyd ffyrdd o ledaenu'r wybodaeth am y ddarpariaeth leol, yn cynnwys cysylltu gydag Ysgol Godre'r Berwyn, Canolfan Henblas, Siop Ann Davies, y Cynghorydd Dilwyn Morgan, y Ganolfan Hamdden, Croeso Cynnes a diolchwyd i Jaqui Allen am dynnu sylw at hyn a choladu'r wybodaeth. Bydd y Clerc yn rhannu'r wybodaeth. Mynegwyd syndod nad oedd y Llywodraethwyr wedi cael gwybod am bobl ychwanegol yn mynychu'r ysgol. Cynigodd Clare Mackintosh cymorth hefyd i ledaenu gwybodaeth.
- ii. Dywedodd Jaqui Allen fod croeso i bobl gerdded yn ogystal a rhedeg y *Park Run* ar fore Sadwrn, ac anogodd y Cyngorwyr i ymuno a dangos cefnogaeth.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 2/2/23